Department for Environment Food & Rural Affairs

Defra POPs Team
Seacole Building
2 Marsham Street
London SW1P 4DF

T: 03459 335577
helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

19 Mai 2023

Annwyl Ymgynghorai,

Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000

Rwy'n ysgrifennu i wahodd sylwadau ar ddrafft o'r Offeryn Statudol (OS) arfaethedig i ddiwygio'r Rheoliadau Biffenylau Polyclorinedig (PCBs), gan ddefnyddio pwerau yn adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999.

Gwnaed diwygiad i'r Rheoliadau PCBs yn 2020 ac yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid ers i'r diwygiad hwnnw ddod i rym, mae Defra wedi cael gwybod bod angen eglurder pellach yn y cyfeiriadau at offer penodol sy'n cynnwys PCBs yn unol â'r manylion yn y Rheoliadau PCBs. Mae hyn yn ymwneud â pha offer sy'n cynnwys PCBs y mae angen rhoi'r gorau i'w defnyddio erbyn 31 Rhagfyr 2025.

Drwy'r ymgynghoriad hwn rydym yn gofyn am gadarnhad gan y rhanddeiliaid y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau PCBs, a ddisgrifir yn yr OS drafft sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad, yn egluro'r gofynion ar gyfer cael gwared ar offer sy'n cynnwys PCBs erbyn diwedd 2025.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg am 6 wythnos rhwng 19 Mai a 30 Mehefin 2023. Rydym yn teimlo bod yr amser hwn yn briodol ac yn gymesur, o gofio bod yr ymgynghoriad yn ymwneud ag OS byr sy'n cynnwys detholiad bach o newidiadau manwl gywir yn y ddeddfwriaeth sy'n dechnegol eu natur ac sy'n ymwneud â nifer fach o randdeiliaid.

Gellir dod o hyd i'r dogfennau a ganlyn ar Citizen Space, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad:

- Y ddogfen ymgynghori;
- Atodiad sy'n cynnwys yr OS drafft arfaethedig;
- Hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad hwn.

Rydym yn croesawu'ch barn a'ch sylwadau ar y cynigion. Os hoffech gael copi o'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â thîm POPs Defra yn: pops@defra.gov.uk

Ymatebion

I gyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch yr holiadur ymgynghori a ddarperir drwy Citizen Space (offeryn ymgynghori ar-lein yw Citizen Space).

Gellir anfon ymatebion neu wybodaeth neu ddogfennau ychwanegol at:

Consultation on proposed amendments to The Environmental Protection (Disposal of Polychlorinated Biphenyls and other Dangerous Substances) (England and Wales) Regulations 2000
Consultation Coordinator
Second floor Foss House
Kings Pool
1 to 2 Peasholme Green
York YO1 7PX

Dylai'r ymatebion ddod i law erbyn 30 Mehefin 2023.

Cyfrinachedd a diogelu data

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghoriadau wedi'i uwchlwytho ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r broses ymgynghori hon wedi'u cynllunio i gadw at yr Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet. Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maen nhw'n eu cynrychioli a lle bo'n berthnasol pwy arall y maen nhw wedi ymgynghori â nhw wrth ddod i'w casgliadau pan fyddant yn ymateb.

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIRs), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018).

Mae gennym rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIRs, Deddf 2000 a Deddf 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd o dan rai amgylchiadau.

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol fod yr Adran, yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod cyhoeddus, wedi'i rhwymo gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai felly y bydd yn rhaid iddi ddatgelu'r cyfan neu rywfaint o'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu.

Oherwydd hyn, byddai o gymorth pe baech yn esbonio pam rydych chi o'r farn bod yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn gyfrinachol.

Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn cymryd eich esboniad i ystyriaeth yn llawn, ond allwn ni ddim rhoi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd nacâd cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei drin ohono'i hun fel cais am gyfrinachedd.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â dogfen Swyddfa'r Cabinet "Consultation Principles" sydd ar gael yma: www.gov.uk/government/publications/consultationprinciplesguidance.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

Consultation on proposed amendments to The Environmental Protection (Disposal of Polychlorinated Biphenyls and other Dangerous Substances) (England and Wales) Regulations 2000
Consultation Coordinator
Second floor Foss House
Kings Pool
1 to 2 Peasholme Green
York YO1 7PX
Neu drwy'r ebost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Diolch ichi am eich help yn hyn o beth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni fel uchod.

Yn gywir,

Sally Read
Cynghorydd Polisi
Tîm POPs a Chemegion mewn Gwastraff
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig